# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Romilly**

**Cartref Nyrsio Romilly**
**9 Romilly Road**
**Caerdydd**
**CF5 1FH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Romilly

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Oakville Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 72 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cliciwch neu pwyswch yma i gynnwys testun.16 Awst 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Gall Cartref Nyrsio Romilly letya 72 o breswylwyr gydag amrywiaeth o anghenion gofal nyrsio a gofal personol. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ddirybudd. Mae rheolwr yn ei le, sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Rita Patel yw unigolyn cyfrifol y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm cyfeillgar o staff. Mae digon o staff ar gael i ddarparu gofal ac i helpu gyda'r trefniadau addas sydd ar waith i gyflenwi pan na fydd digon o staff ar gael.

Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn weladwy ac yn cymryd rhan yn y gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r rhan fwyaf o'r systemau ar waith i sicrhau y caiff gofal a chymorth o ansawdd eu darparu, ond gwnaethom nodi meysydd lle'r oedd angen gwneud gwelliannau. Mae angen gwella'r ddogfennaeth gofal sy'n adlewyrchu anghenion gofal ac iechyd y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol cyffredinol a disgwylir i hyfforddiant ychwanegol gael ei gynnal ar feysydd penodol.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n gartrefol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion. Mae amgylchedd y cartref yn ddiogel. Ymgynghorir â'r bobl am y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt. Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith i leihau'r risg o ledaenu clefydau heintus drwy'r cartref.

## Llesiant

Rhoddir dewis o brydau bwyd a diodydd da i'r bobl i ddiwallu eu hanghenion a'u dewisiadau o ran maeth. Gwelsom rai o'r bobl yn mwynhau'r prydau bwyd a ddarperir ond gwnaethom nodi bod angen gwella'r profiad amser bwyd er mwyn sicrhau bod y bobl yn gallu mwynhau amser i gymdeithasu. Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd o 5 (da iawn). Gwnaethom siarad â'r bobl a oedd yn canmol y dewis o fwyd a'i safon.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r brif fynedfa i'r cartref wedi'i chloi. Mae trefniadau ar gyfer diogelwch tân a gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar waith. Mae'r cartref yn lân ac wedi'i ddodrefnu'n dda ac mae'n addas ar gyfer anghenion y preswylwyr. Mae'r tîm rheoli'n sicrhau ei fod yn lle diogel i'r bobl fyw a gweithio ynddo ac i bobl ymweld ag ef. Gall y bobl symud yn rhydd yn unol â'u galluoedd a'r risgiau a aseswyd. Mae pedwar llawr yn y cartref a gellir cyrraedd pob un ohonynt drwy ddefnyddio lifft teithwyr.

Mae mesurau ar waith i hyrwyddo safonau ymarfer da yn y cartref, gyda mesurau atal a rheoli heintiau cadarn ar waith sy'n cydymffurfio â'r Canllawiau Iechyd Cyhoeddus. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio digwyddiadau, damweiniau, cwynion a materion diogelu. Mae datganiad o ddiben ar gael sy'n gyfredol ac yn adlewyrchu'r cartref.

Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio anghenion hyfforddiant a goruchwylio'r staff, ond gwnaethom nodi lle y mae'n rhaid gwneud gwelliannau pellach. Mae cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn unol â rôl benodol pob gweithiwr. Mae proses recriwtio gadarn ar waith. Dengys yr Unigolyn Cyfrifol ei bod yn goruchwylio'r cartref yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n ddiogel ac yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd lle'r oedd angen gwneud gwelliannau. Gwnaethom drafod y meysydd hyn â'r Unigolyn Cyfrifol a ddangosodd ymrwymiad i wella a datblygu.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael gofal a chymorth priodol ar y cyfan ac mae'r staff yn gweithredu dull cyfeillgar. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol a dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthynas waith dda a'u bod yn dangos parch. Mae'r ddogfennaeth gofal a ddefnyddir i gefnogi'r broses o ddarparu gofal a chymorth sydd eu hangen ar y bobl wedi newid yn ddiweddar i system electronig. Mae angen cryfhau'r system hon er mwyn sicrhau ei bod cynnwys y risgiau a nodwyd. Caiff y bobl eu hannog i gael ymwelwyr â'r cartref a dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym, *“Staff are kind and helpful.” “I am well looked after”.*

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl gael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant parhaus. Dengys y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn ffeiliau gofal y bobl y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol amrywiol ac y cysylltir â nhw. Gwelsom fod yr atgyfeiriadau hyn ar y cyfan yn cael eu gwneud mewn modd amserol a phan fydd anghenion y bobl yn newid. Gwelsom fod y bobl i'w gweld yn iach a'u bod yn cael gofal a chymorth i gyflawni eu canlyniadau personol. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl nac yn dangos tystiolaeth o hyn yn sgil bylchau yn y cofnodion. Gwnaethom drafod rhai materion â'r tîm rheoli a fyddai'n fuddiol i'w hadolygu sy'n cynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill; nodi mwy o wybodaeth fanwl mewn perthynas â dewisiadau personol a'r hyn sydd o bwys iddynt yn y cynllun, yn ogystal â thargedau/cymeriant hylif ac arferion gofal clwyfau. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y byddai'n mynd i'r afael â hyn ar unwaith.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom fod iaith y corff ac ystumiau'r bobl yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel ymysg y staff gofal sy'n eu cefnogi. Dywedodd y tîm o staff wrthym eu bod yn deall pwysigrwydd rhoi gwybod am bryderon a'u bod yn teimlo eu bod yn gallu mynd at y rheolwr/Unigolyn Cyfrifol i fynegi unrhyw faterion neu bryderon ac y byddent yn cael eu cefnogi'n dda iawn. Mae'r staff gofal yn weladwy, a gwelsom fod y trefniadau staffio'n cael eu goruchwylio'n briodol. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn dda a dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio â'r preswylwyr mewn modd cyfeillgar a pharchus.

Mae angen gwella profiad amser bwyd y bobl am i ni weld fod profiadau cymysg yn cael eu cynnig iddynt. Gwnaethom arsylwi'r ardal fwyta yn ystod amser cinio a gwelsom rai o'r bobl yn mwynhau amser i gymdeithasu ac yn eistedd yn sgwrsio ag eraill a oedd yn eistedd o amgylch y byrddau bwyta. Roedd y bobl eraill yn dal i eistedd yn eu cadeiriau cyfforddus lle roeddent wedi treulio eu hamser drwy'r bore. Gwelsom fod rhai o'r bobl wedi cael eu rhoi i eistedd yn amhriodol oherwydd cynllun y lolfa. Trafodwyd hyn â'r Unigolyn Cyfrifol a ddywedodd wrthym y byddai'n mynd i'r afael â'r mater ar unwaith. Dyfarnwyd sgôr o 5 i'r cartref gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n golygu bod y safonau yn dda iawn.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint drwy roi amserlenni glanhau ar waith er enghraifft. Mae gan y gwasanaeth bolisi rheoli heintiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd trafodaethau â'r staff gofal yn cadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau rheoli heintiau, ac fe'u gwelsom yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol pan fo hynny'n addas.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y bobl ymdeimlad o berthyn. Mae gan y cartref sawl ardal gymunedol fach i'r bobl eistedd a mwynhau gydag eraill neu dreulio amser ar eu pen eu hunain. Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli gydag eitemau o ddewis y bobl a'u heiddo personol. Mae ardal fwyta agored fawr a gall y bobl ag anghenion symudedd fynd i mewn ac allan o'r ardal yn rhwydd, ond mae angen ystyried y trefniadau eistedd yn yr ardal hon. Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd glân a chartrefol gan amlaf. Fodd bynnag, gwelsom fod eitemau personol yn cael eu storio'n amhriodol mewn ystafelloedd ymolchi cymunedol. Gwnaethom ofyn i'r rhain gael eu symud. Cytunodd yr Unigolyn Cyfrifol â'r canfyddiadau a dywedodd wrthym y byddai'r mater yn cael ei ddatrys ar unwaith.

Mae'r bobl yn ddiogel a chaiff yr adeilad ei gadw'n ddiogel gan system bysellbad sydd ar waith. Mae'n rhaid i ymwelwyr ganu'r gloch er mwyn cael mynediad. Mae pedwar llawr yn y cartref a gellir cyrraedd pob un ohonynt drwy ddefnyddio lifft teithwyr. Mae'r cartref yn cynnig llety addas i'r preswylwyr. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio gofynion iechyd a diogelwch y cartref. Gwnaethom nodi yn ystod ein taith o amgylch y cartref fod rhai o'r ffenestri ar agor ac y gall hyn beri risg i'r preswylwyr. Mae'r staff yn cynnal gwiriadau diogelwch yn rheolaidd a gwelsom gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEP) cyfredol ar waith. Mae asesiad risg tân ar waith ac mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân a chodi a chario. Caiff yr hyfforddiant presennol ei wella ac mae'r rhan fwyaf yn gyfredol. Mae dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer cynnal yr hyfforddiant diweddaraf. Caiff archwiliadau amgylcheddol eu cynnal yn ddyddiol/wythnosol er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd yn lân ac yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r broses o storio eitemau peryglus.

Mae darparwr y gwasanaeth gan amlaf yn nodi ac yn lliniaru unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch. Gwnaethom ystyried amrywiaeth o gofnodion mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, a oedd yn dangos bod y darparwr yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae gan y cartref lyfr ymwelwyr yn unol â'r trefniadau diogelwch tân a chaiff manylion adnabod ymwelwyr eu gwirio. Gwelsom fod pob un o'r gwiriadau diogelwch mewn perthynas â chofnodion gosod systemau nwy a thrydan a chofnodion diogelwch yn foddhaol ac yn gyfredol. Roedd yr holl ffeiliau cyfrinachol, gan gynnwys ffeiliau gofal a ffeiliau'r staff, yn cael eu storio'n ddiogel mewn ardaloedd dan glo.

Gall y bobl fod yn hyderus bod trefniadau effeithiol yn y cartref a fydd yn amddiffyn diogelwch y cyhoedd ac yn lleihau'r risg o groes-heintio. Mae'r gwasanaeth yn goruchwylio er mwyn sicrhau bod y staff yn dilyn y canllawiau cywir ar heintiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn hyderus bod y tîm rheoli yn monitro ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae'r systemau a'r prosesau sydd ar waith gan amlaf yn helpu i hyrwyddo'r gwaith o redeg y cartref yn ddidrafferth; fodd bynnag, gwnaethom nodi lle'r oedd angen gwneud gwelliannau. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio digwyddiadau, damweiniau a chwynion. Caiff archwiliadau mewnol eu cynnal gan y cartref i fonitro safonau ac ymarfer. Gwnaethom edrych ar rai o'r polisïau allweddol a gwelsom eu bod yn gyfredol ac wedi'u hadolygu. Gall y staff gael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau ac maent yn rhoi canllawiau a gwybodaeth iddynt i'w cefnogi yn eu rolau.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel a'u cefnogi a gwelsom fod yr hyfforddiant wedi gwella ar gyfer y rolau y maent yn eu cyflawni. Gwnaethom edrych ar ffeiliau recriwtio staff a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wiriadau cyn cyflogi gofynnol ar gyfer unrhyw berson sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un yn unol â'r gofynion rheoliadol. Mae'r sesiynau goruchwylio yn rhoi cyfleoedd i bob aelod o'r staff drafod ei berfformiad, datblygiad a/neu unrhyw bryderon a allai fod ganddo. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant y staff yn gyfredol ar y cyfan, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed, rheoli heintiau a chodi a chario. Fodd bynnag, o edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff, gwnaethom nodi nad yw'r staff, er eu bod yn cael hyfforddiant gorfodol yn rheolaidd, wedi cael hyfforddiant penodol i'w helpu i ddeall anghenion penodol y bobl y maent yn eu cefnogi er mwyn nodi a lliniaru risgiau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cydnabod y 'bylchau' yn hyfforddiant y staff a dywedodd wrthym ei bod yn gweithio i gyflawni hyn.

Gwnaethom siarad â'r staff yn ystod ein hymweliad a dywedwyd wrthym, *"Management are supportive", "I enjoy working here and feel supported", "I have been here many, many years"*. Mae'r trosglwyddiadau dyddiol yn sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei rhannu ymysg y staff yn ystod cyfnodau trosglwyddo shifft. Gwnaethom nodi fod y broses archwilio a gwblheir yn rheolaidd gan amlaf yn sicrhau bod iechyd neu unrhyw ddirywiad mewn unigolyn yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw.

Caiff cyfarfodydd staff eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer y tîm rheoli a'r staff gofal. Mae'r rheolwr yn weladwy a chaiff ei ddisgrifio fel unigolyn "*supportive*" ac "*approachable*" gan y staff. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref fel sy'n ofynnol a gwnaethom edrych ar yr adroddiad monitro ansawdd bob tri mis dyddiedig 10 Awst 2023 a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Gwelsom o'r adroddiad fod rhai meysydd yr oedd angen eu gwella y gwnaethom dynnu sylw atynt drwy gydol ein hymweliad wedi'u nodi'n flaenorol gan yr Unigolyn Cyfrifol.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd i ni ei bod yn cymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Mae angen i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y bobl yn cael yr help sydd ei angen arnynt yn ystod amseroedd bwyd yn unol â chynlluniau personol y bobl | Heb Gyflawni |
| 59 | Rhaid i'r cofnodion gofal gael eu cadw'n gyfredol i ddiogelu'r bobl y mae'r staff yn gofalu amdanynt | Heb Gyflawni |
| 36 | Rhaid i'r staff gael hyfforddiant craidd i ddeall anghenion penodol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt | Cyflawnwyd |
| 6 | Mae angen i'r Unigolyn Cyfrifol gryfhau'r systemau ansawdd ac archwilio ymhellach er mwyn adolygu cynnydd a llywio'r ffordd y datblygir y gwasanaeth | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/12/2023